

Oriel Mission

Come fail at love

Casper White

Hettie Judah, adolygydd celf a'r artist Casper White yn trafod 'Come fail at love' ...



Delwedd: Casper White - Dance from Tiktok @chipscheeseanddoner, Olew ar Lliain

Hettie Judah: Y gweithiau cyntaf a welais i gynnoch chi oedd paentiadau o'ch ffrindiau'n clybio oedd yn cynnwys motiffau o secwiniau anferthol. Palet tipyn yn fwy tywyll oedd e na'r un rydych chi'n gweithio ag e ar hyn o bryd: lliwiau indigo a rhuddgoch tywyll. Yna, mi welais i'r arddangosfa yn Kingsgate Project Space ac roedd eich gwaith wedi newid: roeddech chi'n defnyddio feliau sidan ac roedd yna ryw deimlad yn y paentiadau o edrych ar wrthrychau drwy haenau.

Casper White: Daeth y gweithiau sy'n dangos dawnsio o ddyfarniad teithio'r Oriel Bortreadau Genedlaethol. Ro'n i'n ceisio penderfynu sut gallwn i wneud beth ro'n i am ei wneud mewn ffordd a fyddai'n gweddu i'w system. Felly, yn y bôn, dyma fi'n dweud, "Dw i'n mynd allan i glybio yn Ewrop a mynd â'm ffrindiau" ac fe weithiodd e.

HJ: Am gynnig anhygoel o feiddgar am ddyfarniad teithio – y byddech chi'n mynd i Ynysoedd Baleares a Berlin a mynd i glybio!

CW: Roedd yn anhygoel ac yn amser gwirioneddol ddi-ddorol. Dw i'n hoffi portreadaeth yn yr hen steil, ac mae gen i wir ddi-ddordeb yn ei hanes, ond dw i'n ffan mawr mawr o'r hyn y gallech chi ei ystyried yn ddiwylliant cyfoes rwtshi-rwtsh. Dim jyst sylwi arno fe ydw i – dw i'n hollol sgut arno fe. Dw i'n hoffi TikTok a cherddoriaeth bop. Dw i ar wefannau clecs y selebs fel ffan go iawn. Estyniad o hynny oedd clybio. Nid grwpiau o bobl oedd yn y golygfeydd clybio: fe ddaeth i ymwneud â fi gydag un person arall, i ymwneud â stori'r person hwnnw. Ar y noson yma, gallai rhywbeth ofnadwy ddigwydd, gallai rhywbeth gwych ddigwydd, gallai fod yn fan cychwyn i rywbeth, gallai fod yn ddiwedd i rywbeth. Mae popeth a wnelo â pherthnasoedd: gyda gweithiau celf clasurol, gyda TikToks cyfoes, gyda'r person dw i'n ei baentio.

Oherwydd Covid, dw i heb gael pobl i eistedd i mi. Felly gadewch i ni benderfynu beth oedd y berthynas yma. Mi ddechreuais i edrych ar bobl sy'n 'agored' yn gyhoeddus i berthnasoedd. Mi ddechreuais i edrych ar fodolau a'u swyddogaeth fel ffigurau i'w heilunaddoli. Mi ddechreuais i edrych ar bobl sydd fel cyferbyniadau i deimladau. Mae modelau hefyd yn ffigurau sy'n destun dyheuadau – pethau i syrthio mewn cariad â nhw, pobl i fod. Pan fydda i'n edrych ar fy hoff baentiad gan Titian neu ryw John Singer Sargent neu berson ar Instagram, dw i'n gweld yr un berthynas ddwyffordd: addoli ond hefyd harddwch. Ro'n i am greu paentiad sy'n cynnwys y teimladau hyn.

HJ: Mae fel rhyw gymuned o ddelweddau rydych chi'n ei gweld yn eich gwaith erbyn hyn: er mai fesul un rydych chi'n eu gweld, boed yn wynebau a ffigurau a welir yn yr amgueddfa, yn y cnawd neu ar TikTok, maen nhw i gyd gyda'i gilydd ar yr un rhyngwyneb.

CW: Pan ddo i i'r stiwdio, dw i ddim yn gweld y gweithiau unigol ragor; dw i'n gweld y berthynas rhyngddyn nhw, lle bydden nhw'n cael eu hongian, lle maen nhw'n eistedd. Nid yw'n ymwneud â chreu'r gwaith celf hollbwysig 'na – pob dim mewn un cynnig. Mae'r gweithiau'n eistedd wrth ymyl ei gilydd ac maen nhw'n elwa ar ei gilydd. Gall y naill ddarn gael ei weld fel gwaith

unigol, ond hefyd mae'n cynnwys llawer o'r teimlad a'r wybodaeth sy'n bresennol yn y lleill. Gall un fod wedi'i seilio ar fodel sy'n gwneud ei sgertiau plethedig ei hun neu ar gerflun Harlecwin ceramig a welais i yn y Met. Mae'r pethau hynny'n dod ynghyd.

HJ: Roedd yna gyfnod pan oeddech chi wir yn ymddiddori mewn pobl yn crio ar TikTok.

CW: Mi wnes i ddechrau drwy edrych ar ddigrifwyr ar TikTok. Roedd i'w weld, pryd bynnag y bydden nhw'n crio, bydden nhw'n postio amdano fo. Roedd yn chwarae ar y ddelweddaeth grefyddol ro'n i'n ymdrin â hi – nid actio yw e achos dyma galon y gwir – ond y parodrwydd yma i ddangos stwff. Eiliad emosiynol yn eu bywydau oedd hi ond un roedden nhw am ei rhannu hefyd. Mi wnes i bedwar paentiad gyda pherson TikTok yn crio. A dau angel o gerflun Fflorentaidd a welais i yn Chicago.

HJ: Mae pobl ar y cyfryngau cymdeithasol a seintiau fel ei gilydd yn dod yn dotemau emosiynol, fel mannau cyffwrdd i bobl eraill binio eu hemosiynau arnyn nhw.

CW: O bosib. Dw i'n ddigrefydd, felly pan fydda i'n mynd i eglwys neu'n ymgysylltu â'r math yna o ddelweddaeth, mae'n teimlo'n od; pan welwch chi'r Forwyn Fair neu ffigwr mewn paentiad crefyddol sy'n crio neu'n fregus neu sydd wedi'i frifo, emosiynau dynol oedden nhw. Mae'r pethau yma wir ar y blaen ar y cyfryngau cymdeithasol ar hyn o bryd, felly ro'n i'n gweld cysylltiadau roeddwn i am eu mynegi mewn paent. Oherwydd bod y cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn rhan o fywydau'r bobl hyn am fwy o amser na fi, maen nhw wedi bod yn agored iawn. Pan fydda i'n mynd i amgueddfa ac yn gweld cerflun sy'n mynegi'r pethau hyn, i mi, dyma'r un peth a dweud y gwir. Dyma ffordd o gydnabod hynny a dod â nhw i'r un pwynt.

HJ: Mae'n gwneud perffaith synnwyr: ffigurau sy'n dioddef er ein mwyn ni, sy'n ein helpu i fynegi neu i ryddhau ein hemosiynau.

CW: Y ddigrifwraig ro'n i'n ei phaentio hefyd yn actores ond pan fydd hi'n ei dangos ei hun yn crio mae oherwydd ei bod hi wedi bod yn crio ond bydd yn tynnu ffotograff ohoni'i hun ac wedyn yn ychwanegu dagrau ato fe ac yn defnyddio hidlyddion. Dw i'n meddwl ei bod yn wirioneddol ddiddorol.

Un peth sy'n ddiddorol hefyd yw tueddiad TikTok i wthio harddwch i'r blaen ac i wthio gwynder i'r blaen. Hyd yn hyn dw i wastad wedi paentio fy ffrindiau, felly mae hynny wedi golygu mai hoyw, traws ac o wahanol gefndiroedd yn bennaf fu fy modelau. Drwy chwilio am fodelau ac am bobl sy'n cael eu gwthio ymlaen (gan yr algorithm), mae wedi dod yn rhyw fath o grŵp cydryw. Dw i ddim yn ceisio gwneud datganiad gwleidyddol ond dyma rywbeth dw i'n ymwybodol ohono.

HJ: Ydych chi wedi bod mewn cysylltiad â phawb rydych chi wedi'i baentio?

CW: Pawb, do. Hyd yn oed y bobl weddol enwog, dw i wedi gyrru neges neu ymestyn allan atyn nhw. Mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw wedi bod yn wirioneddol gadarnhaol. A finnau'n ffan o ddiwylliant cyfoes yn gyffredinol, gan gynnwys mwynhau'r agweddau 'gwaethaf', mae'r ffaith bod y bobl yma'n dangos diddordeb ac eisiau cael eu paentio a'u gweld mewn ffyrdd gwahanol yn rhywbeth eitha cyffrous i mi.

HJ: Soniwch wrtha i am harddwch. Wrth edrych ar y palet 'na y tu ôl i chi, rhyw fath o awyrlun Titianaidd yw e ac iddo'r holl binciau a lliwiau glas golau a meddalwch a gewch chi gyda'r nos. Mae harddwch, yn amlwg, yn rhan fawr o'r awyrgylch rydych chi'n ei greu.

CW: Gyda'r portreadau dawnsio a'r sidanau, y syniad oedd creu rhyw deimlad o agosatrwydd. Roeddwn i eisoes yn ei wneud e yn y sioe yn Kingsgate, gan fy amgylchynu fy hun â theimladau. Dw i'n teimlo bod y cyferbyniad rhwng golau a thywyllwch wedi'i wthio arna i yn y gorffennol oherwydd mae angen cyferbyniad i fynegi'r ddelwedd yn llawn. Bellach, oherwydd fy mod i'n gweithio ar raddfa lai, o fewn y paletau lliw yma, mae pethau fel cyffyrddiad a theimlad a thryloywedd ac uniongyrchedd yn dod i'r blaen. Oherwydd fy mod i wedi tynnu'r tywyllwch, galla i wneud delwedd dywyll sydd mewn gwirionedd yn olau iawn. Mae mewn sbectrw m goleuach, ond a dweud y gwir mae'n gallu cynnwys mwy o deimlad na bod yn ddüwch dudew. Mae cymaint o hanes yn gysylltiedig â browniau tywyll, gallan nhw ddod yn arf i esgus bod yn artist go ddifri.

HJ: Mae lliwiau tywyll yn rhoi urddas i baentiad?

CW: Ydyn, fel 'sech chi'n ychwanegu'r syniad o amgueddfa ato. Ond fan hyn mae gen i'r dwylo o Piero della Francesca a llun o ferch oddi ar TikTok. Mae'r lliwiau hynny'n cael eu cymryd yn uniongyrchol o'r paentiad gan Piero; ceir manylion o sgert yn y Piero ro'n i wrth fy modd â hi a lliwiau glas sy'n cyfeirio at ddarnau ceramig: mae wedi'i drwytho yn hanes artistiaid. Mae yna lot o sgwrs.

HJ: Gallwch chi weld sut mae symbolaeth ac ystum wedi para heb fod pobl o anghenraid yn sylweddoli o ble maen nhw wedi dod.

CW: Mae rhai o'm hoff baentiadau'n cynnwys darn o ddefnydd sy'n mynd dros ffurf: fel paentiwr, teimlaf fod yr artist yn cael diwrnod da. Ac i mi ar hyn o bryd, dyna'r flaenoriaeth a dweud y gwir. Yn lle dod o angen i baentio Mair neu Iesu neu bwy bynnag, yn y bôn, y bobol o'm cwmpas yw'r rheini ar TikTok neu YouTube, yn enwedig yn ystod Covid.

HJ: Dyna ro'n i'n ceisio mynd ato pan ofynnais i sut roedd yn teimlo i gael eich amgylchynu gan y gymuned yma ar y wal, oherwydd mae fel 'sech chi wedi creu oriel bortreadau o'r bobl sydd wedi'ch hebrwng drwy'r 6 mis diwethaf.

CW: Do, heb os, a dw i'n falch ohoni oherwydd mae'n teimlo'n onest. Mae'n newid i mi, o ddelweddaeth cyferbyniad uchel drwodd i hyn, ond, a dweud y gwir, mae hyn wastad wedi bod yno. Roeddwn i'n ceisio taflu popeth allan o'r stiwdio: fy syniadau am beth yw e i fod yn artist o Gymru, neu fod yn artist o unrhyw le, ac efallai mai peth ymwybodol oedd taflu fy mhalet ymaith. Mae natur wleidyddol lliw'n bresennol iawn y dyddiau 'ma, ond bron na theimlais i'r angen i dorri hynny'n rhywbeth y gallwn i ddelio ag e. Dw i'n gwybod, 'swn i'n gwneud paentiad heddiw, 3 lliw y byddwn i'n eu defnyddio. Dw i'n hoffi terfynau. Yna wrth gwrs, rydych chi'n gallu mynd o ddelwedd sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at hen baentiad drwodd i rywbeth newydd a does dim rhaid i chi wneud y gwaith caled o esgus bod yn beintwr o'r 17eg ganrif.

[Hettie Judah](#) prif adolygydd celf ar y papur dyddiol Prydeinig The I, a chyfrannwr i Frieze, The Guardian, Vogue, The New York Times, Art Quarterly, Numéro Art a chyhoeddiadau eraill gyda 'celf' yn y teitl. Mae traethodau diweddar i'w gweld yng nghatalog 58fed Gŵyl Venice a Vitamin T, llyfr ar gelf tecstil a chyhoeddwyd gan Phaidon.

[Casperwhite.com](#)

Mae Casper White wedi ei gynrychioli gan Arusha Gallery.

Mae 'Come fail at love', arddangosfa wedi ei raglenni i gyd-ddigwydd a gŵyl beintio BEEP, yn parhau yn Oriol Mission, Abertawe tan 14 Tachwedd 2020.

Mission Gallery



ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED 

